





# Cyflwyno **Abertawe** Lwyddiannus a Chynaliadwy

Cynllun Corfforaethol Dinas a Sir Abertawe 2022/23








Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

# *Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy*

# Cynllun Corfforaethol Dinas a Sir Abertawe 2022/23

## Rhagair

Mae nifer o heriau mawr yn wynebu'r byd, y Deyrnas Unedig, Cymru ac Abertawe. Mae llawer o'r heriau hyn yn cael effaith fawr ac yn gofyn i ni weithio mewn ffordd wahanol i'r ffordd rydym wedi gweithio o'r blaen; ac mae hyn yn wir yn achos effaith y pandemig COVID-19. Mae pandemig Coronafeirws wedi newid y ffordd rydym yn byw, yn gweithio ac yn treulio'n hamser yn ddramatig - gyda mesurau a roddir ar waith gan y Llywodraeth yn newid yn barhaus i reoli ymlediad y feirws angheuol hon.

Ers mis Mawrth 2020, ffocws y Cyngor yw arbed bywydau, lleihau ymlediad y feirws a chefnogi'n holl gymunedau. Ers dechrau'r argyfwng, mae staff a phartneriaid y Cyngor wedi dangos eu parodrwydd, eu hyblygrwydd, eu hymrwymiad a'u hymroddiad i gyflwyno gwasanaethau rheng flaen i gymunedau'r ddinas, gan wirfoddoli i gefnogi meysydd blaenoriaeth wrth addasu i ffyrdd newydd o weithio ar yr un pryd. Rydym yn cynnal y mwyafrif o'n gwasanaethau mewn ffordd wahanol, ac mae llawer o staff yn parhau i weithio gartref. Nid yw'r model hwn yn gynaliadwy yn ei fformat presennol ac yn awr, mae angen i ni reoli'r presennol yn ogystal â chynllunio ar gyfer y dyfodol. Er mwyn gwneud hyn, rydyn wedi llunio cynllun adfer - *Cyflawni Pethau'n Well Gyda'n Gilydd* - a fydd yn caniatáu i ni adfer a thrawsnewid y Cyngor fel ei fod yn gallu ymateb yn well i heriau'r presennol a'r dyfodol.

Yn ogystal ag ymdrin â COVID-19, roedd y cyngor yn paratoi ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Rhagfyr. Bydd ymadawiad y Deyrnas Unedig yn golygu perthynas newydd rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Er nad dyma yr oeddem am ei weld ac er bod gennym rai pryderon difrifol o hyd, mae Abertawe mewn sefyllfa dda i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd newydd a allai godi ar ôl Brexit. Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r peryglon a'r heriau mwyaf sydd yn ein hwynebu ni i gyd, ac mae angen i ni feddwl am sut gallwn addasu, lleihau ein hallyriadau carbon a thŷ gwydr a lleihau ein perygl o ddioddef llifogydd ac effeithiau sylweddol eraill. Mae hyn hefyd yn ymwneud â gwneud gwell defnydd o'n tir a'n hadnoddau naturiol wrth geisio gwarchod byd natur, ein hamgylchedd naturiol a gwella bioamrywiaeth.

I fynd i'r afael â'r heriau hyn, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd. I roi ansawdd bywyd da i breswylwyr presennol a chenedlaethau'r dyfodol, mae angen i ni feddwl beth fydd effaith tymor hir ein penderfyniadau. Mae'n rhaid i ni wneud pethau'n wahanol er mwyn newid pethau. Os ydym yn mynd i drechu'r heriau hyn, mae angen i ni feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'n gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio ymagwedd fwy cydlynol. Bydd hyn yn ein helpu i greu Abertawe a Chymru rydym oll am fyw ynddynt, nawr ac yn y dyfodol. Yn y cyfamser, mae 2022 yn flwyddyn gyffrous i Gyngor Abertawe. Byddwn yn cynnal etholiadau llywodraeth leol ac yn penodi Prif Weithredwr newydd. Bydd y rhain a ffactorau allanol eraill a grybwyllir yma yn newid y ffordd rydym yn gwneud pethau yn Abertawe, gan arwain at ymrwymiadau, arweiniad a chyfeiriad newydd. Am y rhesymau hyn, rydym wedi datblygu Cynllun Corfforaethol dros dro ar gyfer blwyddyn a fydd yn cael ei adolygu gyda rhanddeiliaid yn ystod yr haf 2022, ar ôl yr etholiadau a phenodi Prif Weithredwr newydd. Bydd Cynllun Corfforaethol hirach ar gyfer 5 mlynedd yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022 ar ôl yr adolygiad, a fydd yn gwerthuso'r weledigaeth, yr amcanion a'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun.

Y Cyng. Rob Stewart Martin Nicholls

Arweinydd y Cyngor Prif Weithredwr Dros Dro

# 1. Cyflwyniad – Adolygiad o’r Cynllun Corfforaethol a’r Amcanion Lles

Cyhoeddodd Dinas a Sir Abertawe ei Gynllun Corfforaethol yn 2017, fel sy’n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, a oedd yn cynnwys crynodeb o’i ddatganiad lles a’i flaenoriaethau allweddol, a elwir yn ‘Amcanion Lles’.

**Mae’r Cynllun Corfforaethol a’r Amcanion Lles wedi cael eu hadolygu a’u hadnewyddu ar gyfer 2022/23.**

**Bydd Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf (2022/27) yn cael ei adolygu eto ar ôl penodi Prif Weithredwr newydd a chynnal etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.**

Cynhaliwyd yr adolygiad o’r Cynllun Corfforaethol a’n Hamcanion Lles ar gyfer 2022/23 drwy ymgynghori â phobl leol a thrwy asesu, ymhlith ffynonellau eraill, y dystiolaeth ganlynol:

- Tueddiadau a heriau’r dyfodol.
- Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol 2020.
- Ein hamcanion cydraddoldeb, gan gynnwys y Gymraeg.
- Ein hymrwymiadau polisi.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn disgrifio'r camau sy'n cael eu cymryd i fodloni ein hamcanion lles a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol[1] a amlinellir yn y Ddeddf.

Mae'r Cynllun hefyd yn nodi sut rydym yn mwyafu ein cyfraniad at ein Hamcanion Lles a'n nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio, sy'n unol ag egwyddorion cynaliadwy fel a ganlyn:

- Edrych i'r dyfodol at yr heriau tymor canolig a thymor hir.
- Atal problemau rhag codi neu waethygu.
- Sicrhau nad yw ein hamcanion yn gwrth-ddweud ei gilydd, a'u bod yn ategu rhai cyrff cyhoeddus eraill.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill.
- Cynnwys pobl leol.

**Covid-19**

Mae Argyfwng Covid-19 wedi cyflwyno heriau sylweddol a digynsail i'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau, yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth a'n ffordd o fyw. Ers mis Mawrth 2020, ffocws y cyngor fu arbed bywydau, lleihau ymlediad y feirws a chefnogi'n holl gymunedau.

[1] Y Nodau Cenedlaethol yw: Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Datblygwyd y Cynllun Corfforaethol hwn o fewn y cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig Covid-19.

Ers dechrau'r argyfwng, mae staff y Cyngor wedi dangos eu parodrwydd, eu hyblygrwydd, eu hymrwymiad a'u hymroddiad i gyflwyno gwasanaethau rheng flaen i gymunedau'r ddinas, gan wirfoddoli i gefnogi meysydd blaenoriaeth wrth addasu i ffyrdd newydd o weithio gartref.

Mae'r Cyngor bellach yn gweithredu mwyafrif ei wasanaethau ar ffurf wahanol ac (ar y cyfan) mae llawer o staff yn parhau i weithio gartref. Nid yw'r model hwn yn gynaliadwy yn ei fformat presennol ac yn awr mae angen i'r cyngor reoli'r presennol yn ogystal â chynllunio ar gyfer y dyfodol.

I wneud hyn, rhoddwyd ystyriaeth i lunio rhaglen adfer - *Cyflawni Pethau'n Well Gyda'n Gilydd* - a fydd yn adleoli'r Cyngor, yn ailffocysu'r Cyngor i allu bod yn effeithlon ac yn effeithiol wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'i flaenoriaethau, gan ystyried y newidiadau i'r economi, amddiffyniadau iechyd, cyfyngiadau parhaus COVID-19 ac yn olaf, yn ail-drefnu gan edrych y tu hwnt i'r 2 flynedd nesaf a nodi Cynllun Corfforaethol newydd o 2022 gan adeiladu ar ein rhaglen drawsnewid flaenorol, *Abertawe Gynaliadwy: yn addas ar gyfer y dyfodol*.

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24**

Mae cydberthynas agos rhwng Cynllun Corfforaethol ac Amcanion Lles y Cyngor a Chynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb y Cyngor. Cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd gydag Amcanion Cydraddoldeb Strategol newydd yn ystod 2020/21 yn dilyn ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â phobl, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig. Bellach mae llawer o'r camau i gyflwyno amcanion lles a chydraddoldeb y Cyngor yn cyfateb yn well wrth i ni fynd ar drywydd integreiddio a cheisio gwella lles ac anelu at Abertawe a Chymru fwy cyfartal.

## 2. Crynodeb o’r Datganiad Lles

### Ein Cynllun Corfforaethol – gweledigaeth, gwerthoedd, egwyddorion ac amcanion lles

Mae ein Cynllun Corfforaethol *Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy* a’n hamcanion lles yn amlinellu sut byddwn yn gweithio i ateb heriau presennol a rhai’r dyfodol.

### Yr heriau sydd i ddod

Mae Abertawe’n wynebu sawl her yn y blynyddoedd sydd i ddod, sy’n cynnwys:

- Newidiadau i’r boblogaeth – Abertawe sy’n tyfu, sy’n heneiddio ac sy’n fwy amrywiol.
- Newidiadau economaidd – denu buddsoddiad, swyddi o ansawdd uchel a thechnoleg newydd i Abertawe wrth fynd i’r afael â’r bwlch sgiliau.
- Newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau natur – peryglon llifogydd, ansawdd aer a dŵr, peryglon i ecosystemau a bioamrywiaeth a diogelwch ynni.

- Newidiadau cymdeithasol a diwylliannol – mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, addysg, cyflogaeth a chyfleoedd bywyd.
- Covid-19 – helpu Abertawe i adfer a thrawsnewid y Cyngor fel y gellir wynebu'r newidiadau a'r heriau newydd sydd o'n blaenau.

Rydym wedi ceisio mynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol drwy ein Cynllun Corfforaethol a'n Hamcanion Lles. Wrth symud ymlaen ac edrych y tu hwnt i'r ddwy flynedd nesaf, mae ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, argyfyngau'r hinsawdd a byd natur ac effaith COVID-19, gan gynnwys newidiadau i'r economi, amddiffyniadau iechyd ac unrhyw gyfyngiadau COVID-19 parhaus, wedi cael eu hystyried a'u nodi yn y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2022.

**Ein huchelgeisiau a'n hymrwymiadau i breswylwyr – ein hamcanion lles**

Er mwyn ateb yr heriau hyn, rydym wedi blaenoriaethu chwe amcan lles, sef:

- ***Diogelu*** *pobl rhag niwed* – er mwyn sicrhau bod ein dinasyddion yn ddiogel rhag niwed a chamfanteisio.
- *Gwella* ***Addysg a Sgiliau*** – fel bod pawb yn Abertawe yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd.
- *Trawsnewid ein* ***Heconomi a'n Hisadeiledd*** – fel bod gan Abertawe ganol dinas defnydd cymysg ffyniannus ac economi leol a fydd yn cefnogi ffyniant ein dinasyddion.
- ***Trechu Tlodi -*** *fel y gall pob person yn Abertawe gyflawni'i botensial*.
- *Cyflawni o ran* ***Adfer Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd*** – fel ein bod yn cynnal ac yn gwella natur a bioamrywiaeth yn Abertawe, yn lleihau ein hôl troed carbon ac yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.
- ***Trawsnewid a datblygu'r Cyngor yn y dyfodol*** – fel ein bod ni a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu'n gynaliadwy ac yn addas i'r dyfodol.

Mae'r amcan *'Cyflawni o ran Adfer Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd'* yn newydd ar gyfer 2022/23 ac mae'n ychwanegu at yr Amcan Llesiant blaenorol 'Cynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe'. Mabwysiadwyd yr Amcan Lles newydd hwn i roi pwyslais penodol ar fynd i'r afael â'r heriau tymor hir sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd a'r bygythiad i fioamrywiaeth; yn dilyn cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Natur, yr ymatebir iddynt drwy'r Amcan Lles hwn.

**Sut byddwn yn gweithio – ein gwerthoedd a'n hegwyddorion**

Mae ein gwerthoedd a'n hegwyddorion a fynegir yn ein Cynllun Corfforaethol yn sail i gyflawni ein hamcanion lles ac maent yn adlewyrchu ffyrdd cynaliadwy o weithio:

**Ein Gwerthoedd**

Mae ein Cynlluniau wedi'u seilio ar dri gwerth clir a fydd yn arwain y ffordd rydym yn gweithio, sut byddwn yn datblygu fel sefydliad a'n penderfyniadau yn y blynyddoedd i ddod.

- ***Ffocws ar Bobl***

Byddwn yn canolbwyntio ar anghenion a chanlyniadau cymunedau ac ar wella bywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Abertawe. Byddwn hefyd yn parchu, yn

gwerthfawrogi ac yn cefnogi ein gweithwyr ac yn dangos y safonau uchaf o gywirdeb.

- ***Gweithio gyda'n Gilydd***

Byddwn yn hyrwyddo ymagwedd partneriaeth gyfan, gan weithio ar draws gwasanaethau i fwyafu adnoddau a gwybodaeth a byddwn yn gweithio gydag eraill y tu allan i'r Cyngor i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ein hadnoddau er mwyn cael y gwasanaethau gorau ar gyfer ein cymunedau.

- ***Arloesedd***

Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant blaengar. Byddwn yn meddwl ac yn gweithio'n wahanol i wella ein gallu i gyflawni ac ymdopi â'r heriau ariannol, demograffig a chymdeithasol rydym yn eu hwynebu. Mae'r ymateb i argyfwng Covid wedi arwain at newyddbethau a newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae staff yn gweithio ac yn darparu gwasanaethau.

**Ein Hegwyddorion**

Bydd ein Cynlluniau a'n blaenoriaethau'n seiliedig ar dair egwyddor allweddol. Mae'r egwyddorion hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni ein hamcanion lles a chânt eu plethu i mewn i'n ffordd o weithio.

- ***Cynaliadwyedd***

Byddwn yn gweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe. Mae hyn yn golygu sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

Mae'n egwyddor allweddol wrth wraidd ein rhaglen newydd *Cyflawni Pethau'n Well Gyda'n Gilydd*, sy'n ymwneud ag adfer o COVID-19 a thrawsnewid gwasanaethau'r Cyngor, sicrhau dichonoldeb ariannol y Cyngor a gwella canlyniadau i breswylwyr.

Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau a cheisio'u barn. Mae ataliaeth ac integreiddio yn ganolog i'r egwyddor cynaliadwyedd a byddwn yn datblygu cynlluniau tymor hir er mwyn mynd i'r afael â'n Hamcanion Lles, gan gydweithio ag eraill. Drwy'r ymagwedd hon, byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn bodloni gofynion *Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

- ***Ataliaeth***

Byddwn yn ymyrryd yn gynharach er mwyn cefnogi pobl sydd yn y perygl mwyaf, yn newid ymddygiad ac yn atal yr angen am wasanaethau arbenigol drud, gyda rhaglen gefnogi tymor hir yn aml. Bydd hyn yn helpu i wneud teuluoedd a chymunedau'n fwy gwydn, yn lleihau'r galw am wasanaethau'r Cyngor, yn lleihau costau ac yn cyflawni gwell canlyniadau. Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd Cyngor cyfan tuag at reoli'r galw am wasanaethau, gan geisio gwella'n dealltwriaeth o gyswllt â chwsmeriaid a sut gellir ail-lunio gwasanaethau er mwyn atal, lleihau neu arallgyfeirio galw. Er enghraifft, rydym wedi parhau i weithio gyda darparwyr gofal cymdeithasol i'w cefnogi i wynebu'r heriau parhaus nes caiff y cyfyngiadau symud eu llacio ac ymladd yn erbyn effeithiau COVID-19, wrth roi cynlluniau ar waith i symud y cydbwysedd o ofal acíwt tuag at ofal ataliol a gwasanaethau cymunedol.

- ***Partneriaethau***


Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus, busnes a gwirfoddol drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a thrwy ffyrdd cydweithredol eraill er mwyn wynebu'r heriau a rennir gan Abertawe a'i chymunedau.

Mae'r ymagwedd 'Tîm Abertawe' wedi bod yn hanfodol wrth fynd i'r afael â COVID19, gan weithio fel Cyngor cyfan gyda phartneriaid, megis y gwasanaeth iechyd, i sicrhau y gall pob gwasanaeth chwarae rhan wrth gyfrannu at ein hamcanion lles a'n bod yn rhannu adnoddau ac arbenigedd mewn ymateb i COVID-19. Er mwyn diwallu anghenion ein preswylwyr a mynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n wynebu Abertawe, mae'n rhaid cael partneriaethau cynhyrchiol, integreiddio ein gwasanaethau'n well a rhannu adnoddau.

**Cyflawni – y camau**

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn dangos bod ein holl Amcanion Lles gyda'i gilydd a'r camau rydym yn eu cymryd i'w cyflwyno'n dangos ein cyfraniad at bob un o'r saith nod cenedlaethol ac at les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe a Chymru.

Nid yw'n cyfraniad at y nodau cenedlaethol a lles Abertawe a Chymru wedi'u mynegi yn ein Cynllun Corfforaethol yn unig. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi ein Hamcanion Lles allweddol a'n cyfraniad ond mae hefyd yn rhan o'n Fframwaith Gwella Perfformiad ehangach, sy'n cynnwys Cynlluniau Gwasanaeth adrannol; mae'r Cynllun Corfforaethol ynghyd â'r Cynlluniau Gwasanaethau yn disgrifio ein cyfraniad llawn. Gwelir y broses hon yn y diagram isod:




**Cyflawni – ffyrdd cynaliadwy o weithio**

Byddwn y mwyafu eto ein cyfraniad at les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe a Chymru drwy wreiddio ffyrdd cynaliadwy o weithio.

Adlewyrchir y ffyrdd hyn o weithio yn ein gwerthoedd a'n hegwyddorion ond hefyd yn y camau rydym yn eu cymryd ac rydym yn bwriadu eu cymryd er mwyn mwyafu ein cyfraniad.

- **Edrych ymlaen at heriau'r tymor hir**

Mae ein Cynllun Corfforaethol a'n Hamcanion Lles yn ceisio mynd i'r afael â heriau presennol a thymor hwy.

Rydym wedi dechrau datblygu ymhellach ein gallu i ragweld a chymryd rhagolwg strategol tymor hwy sy'n edrych ar dueddiadau a senarios y dyfodol er mwyn creu darlun strategol o'r 10-25 mlynedd nesaf a mwy. Rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu darlun o'r hyn y gallai tueddiadau'r dyfodol ei olygu i'r Cyngor ac i gymunedau Abertawe yn y dyfodol; bydd hyn yn rhan bwysig o'n rhaglen *Cyflawni Pethau'n Well Gyda'n Gilydd* wrth i ni geisio adfer o COVID-19, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau natur a thrawsnewid gwasanaethau'r Cyngor i fod yn addas ar gyfer y dyfodol.

- **Atal problemau rhag codi neu waethygu**

Trwy ein hamcanion lles, rydym yn gweithio i atal problemau neu eu hatal rhag gwaethygu.


Mae angen i'r Cyngor barhau i ddatblygu ei ymagwedd ataliol ac i'r perwyl hwnnw, mae wedi datblygu *Strategaeth Atal*. Bydd y strategaeth hon yn gwreiddio ymyrryd ac atal cynnar ymhellach ym musnes y Cyngor a rhoi hyd yn oed mwy o ffocws ar wella lles. Mae llawer o'r ymagwedd at COVID-19 wedi ymwneud ag atal ymlediad y feirws; er enghraifft, drwy weithio gyda phartneriaid i hysbysu a thawelu meddyliau'r cyhoedd ac atgyfnerthu negeseuon ynghylch iechyd a chadw pellter cymdeithasol drwy gyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill.

- **Sut mae ein hamcanion lles yn perthyn i'w gilydd ac i gyrff cyhoeddus eraill.**

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, na ellir ystyried ein Hamcanion Lles unigol fel rhai sydd ar wahân i'w gilydd. Mae'r holl Amcanion Lles yn effeithio ar ei gilydd.

Er enghraifft, mae gwella addysg a sgiliau yn bwysig i'n hymdrechion i leihau tlodi a gwella'r ddinas a'r economi, sy'n golygu trawsnewid ein system addysg i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc y sgiliau angenrheidiol ar gyfer yr economi newydd a sut gallai cymdeithas newid yn dilyn Covid-19 ac o ganlyniad i fygythiadau'r newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Dangosir y gyd-ddibyniaeth hon yn y diagram ar y dudalen nesaf:




Rydym yn gweithio i nodi cysylltiadau ac effeithiau posib amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni er mwyn amlygu lle gall y fath bolisïau/raglenni atgyfnerthu neu danseilio'i gilydd.

Rydym wedi datblygu offeryn Asesu Effaith Integredig newydd sy'n cael ei ddefnyddio i nodi a chryfhau rhyngddibyniaethau.

Defnyddiom yr offeryn hwn i asesu ac adolygu ein Cynllun Corfforaethol a'n Hamcanion Lles, sydd wedi helpu i fapio ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol a nodi rhagor o opsiynau ar gyfer mwyafu'r cyfraniad at les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe a Chymru.

Bydd yn ymgysylltu mwy â'n partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar ein Hamcanion Lles yn ystod y broses o gynhyrchu Cynllun Lles nesaf y BGC; cynigiwyd y cyfle i'n partneriaid yn y BGC gymryd rhan mewn arolwg i helpu llywio Cynllun Corfforaethol ac Amcanion Lles y Cyngor ar gyfer 2022/3.

- **Gweithio ar y cyd ag eraill**

Rydym yn cydweithio â phartneriaid o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector er mwyn cymryd camau i gyflawni ein Hamcanion Lles, gan ddangos ein cyfraniad a'n hopsiynau ar gyfer mwyafu ein cyfraniad at les cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Abertawe a Chymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithio gydag awdurdodau lleol eraill i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.
- Gweithio mewn partneriaeth ar ddiogelu gyda chynrychiolwyr o bob un o'r prif asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am helpu i amddiffyn plant

ac oedolion rhag cam-drin ac esgeulustod drwy Fyrddau Diogelu Gorllewin Morgannwg.
- Gweithio gyda thri awdurdod lleol arall, Llywodraeth Cymru, Prifysgolion a'r sector preifat drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe i drawsnewid tirlun economaidd yr ardal, rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol a chreu bron 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth Iechyd, Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus eraill a'r trydydd sector i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i bandemig Covid-19.

- **Cynnwys ein holl ddinasyddion yn yr hyn rydym yn ei wneud**

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ymgynghori â phreswylwyr, rhanddeiliaid eraill a gweithwyr a'u cynnwys ym mhroses benderfynu'r Cyngor. Mae gennym Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu newydd ar gyfer ymarferwyr i'w helpu i ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn ymgysylltu ag amrywiaeth y boblogaeth drwy grwpiau a fforymau amrywiaeth, megis y Rhwydwaith 50+ a'r Fforwm LGBT. Mae disgyblion ysgol yn ymwneud â'u haddysg drwy Gynghorau Ysgol a thrwy *Lais y Disgybl*, sydd wedi'i anelu'n uniongyrchol at gynyddu cyfranogiad disgyblion fel a nodir yn Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP); Abertawe oedd y cyngor cyntaf yn y Deyrnas Unedig i fabwysiadu a gwreiddio CCUHP. Mae digwyddiadau *Sgwrs Fawr* y Cyngor yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc drafod materion sydd o bwys iddynt a dylanwadu ar bolisi'r Cyngor.

Mae gweithredu yn y gymuned a chyfranogaeth gymunedol yn ganolog i sut mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn cyflwyno gwasanaethau. Cefnogir creu grwpiau 'Cyfeillion' er mwyn adfywio parciau, traethau a rhandiroedd lleol. Ym maes gofal cymdeithasol, mae ymagweddau at arfer proffesiynol sy'n seiliedig ar gryfderau hefyd yn cynnwys helpu pobl a'u teuluoedd i ymdrin â'u problemau eu hunain drwy ganolbwyntio ar eu cryfderau a'u rhinweddau, a'r hyn y gallant ei gyfrannu.

Mae gennym gynlluniau i gynnwys rhagor o bobl leol ym mhenderfyniadau'r Cyngor sy'n effeithio arnyn nhw, eu teuluoedd a'u cymunedau a dyna pam y lluniwyd *Fframwaith Cydgynhyrchu*. Byddwn yn ceisio sefydlu fforwm i wirfoddolwyr cymunedol er mwyn eu cynnwys yn y broses benderfynu a rhoi cyfle iddynt fynegi eu barn a'u safbwyntiau. Mewn ymateb i Covid-19, mae ein rhaglen adfer a thrawsnewid newydd - *Cyflawni Pethau'n Well Gyda'n Gilydd* - yn ceisio ymgysylltiad mwy a mwy ystyrlon â'n preswylwyr a'n cymuned.

***Cynnwys pobl yn ein Hamcanion Lles***

Mae'r adolygiad o'n Cynllun Corfforaethol a'n Hamcanion Lles ar gyfer 2022/23 wedi cael ei gynnal o fewn y cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig Covid-19, a oedd yn cyfyngu ar ymgysylltu wyneb yn wyneb yn arbennig.


Cynhaliodd y Cyngor arolwg i gael arweiniad a cheisio barn pobl i helpu llywio'r broses o adnewyddu'r Cynllun Corfforaethol a'r Amcanion Lles ar gyfer 2022/23. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r arolwg, fe'i targedwyd at randdeiliaid penodol yn ogystal â'r cyhoedd, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth ategol. Gofynnwyd i'r

ymatebwyr roi eu barn am Amcanion Lles presennol y Cyngor a pherfformiad wrth eu cyflawni, a ph'un ai'r rhain oedd yr amcanion iawn i wella lles yn Abertawe yn awr ac yn y dyfodol; gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd roi eu barn am yr Amcan Llesiant newydd ac arfaethedig '*Cyflawni o ran Adfer Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd*'.

At ei gilydd, mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod yr ymatebwyr yn cytuno bod Amcanion Lles arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2022/23 yn briodol er mwyn i Gyngor Abertawe barhau i wella lles yn Abertawe. Roedd y gyfran fwyaf o ymatebwyr yn cytuno mai Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd oedd yr amcan iawn ar gyfer Cyngor Abertawe yn y dyfodol (81%), a ddilynwyd yn agos gan gytuno â Diogelu Pobl rhag Niwed (77%) a Gwella Addysg a Sgiliau (77%). Roedd ychydig yn llai na thri chwarter o'r cyfranogwyr (73%) yn credu bod Trechu Tlodi yn amcan priodol ar gyfer Cyngor Abertawe yn y dyfodol, roedd bron dwy ran o dair (62%) yn cytuno â'r amcan newydd Cyflawni o ran Adfer Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd ac roedd 54% yn cytuno â Thrawsnewid a Datblygu Cyngor y Dyfodol.

**Ein Cyllideb – adnoddau ar gyfer ein Hamcanion Lles**

Yn dilyn ymgynghoriad â staff, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, mae adroddiad ar y gyllideb yn mynd gerbron y Cabinet ac yna caiff ei drafod mewn cyfarfod Cyngor llawn. Mae gan y Cyngor dros £500 miliwn i'w wario. Daw'r mwyafrif helaeth o'r arian hwn o'r Llywodraeth a grantiau, ac rydym yn codi mwy o arian drwy dreth y cyngor ac incwm. Dyma sut y dyrennir y gyllideb ar hyn o bryd (cyllideb 2022/23):




Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar gyllideb 2023/24 ar waith erbyn yr hydref oni bai y caiff ei oedi, fel sydd wedi digwydd am y 3 blynedd diwethaf oherwydd penderfyniadau cenedlaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i oedi dyraniadau cyllidebol a chyhoeddiadau (sydd wedi gwaethygu'n ddiweddar oherwydd ansicrwydd ariannol Covid-19). Er bod swm yr arian rydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn sylweddol fwy ar gyfer y flwyddyn nesaf (2022/23), ac y gallai fod cynnydd cymharol fach mewn arian dros y blynyddoedd i ddod, bydd angen sicrhau llawer mwy o arbedion i wrthbwyso ein rhagolwg o wariant ychwanegol, sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, megis chwyddiant prisiau cynyddol, codiadau cyflog cenedlaethol a demograffeg.

Mae'r cyhoedd eisoes wedi dweud wrthym mai eu blaenoriaethau yw ysgolion a'r gwasanaethau cymdeithasol. Eto, maent hefyd yn dweud wrthym fod rhai digwyddiadau penodol, glanhau strydoedd a chynnal a chadw priffyrdd yn bwysig iawn iddynt. Mae hefyd angen i ni sicrhau adferiad cadarn a chyflym yn dilyn Covid-19 o ran iechyd, lles a gweithgarwch economaidd. Mae ein cyllideb yn cynnwys rhestr o flaenoriaethau cyllidebol yn unol â'n hamcanion lles fel y'u nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol. Ond gydag adnoddau cyfyngedig bydd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd yn y dyfodol o ran gwariant a threthi er mwyn mantoli'r cyfrifon.

Rydym yn codi dros £135miliwn mewn treth y cyngor bob blwyddyn, ond nid yw hyn hyd yn oed yn talu am gostau ein gwasanaethau cymdeithasol, heb sôn am yr holl wasanaethau eraill a ddarperir gennym. Mae cost gyffredinol gwasanaethau'r Cyngor yn golygu nad yw cynyddu treth y cyngor yn unig yn opsiwn. Felly, rhaid i ni gymryd camau eraill.

## 3. Ein Hamcanion Lles

Mae rhan nesaf y Cynllun yn nodi ein Hamcanion Lles ar gyfer 2022/23. Caiff pob amcan ei ddisgrifio'n fanwl dan y penawdau canlynol:

- **Pam mae'r flaenoriaeth hon yn Amcan Lles?**
- **Yr heriau tymor hwy y bydd pob amcan lles yn helpu i fynd i'r afael â hwy.**
- **Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni pob amcan lles.**
- **Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.**
- **Sut byddwn yn mesur cynnydd.**
- **Cyfraniad pob amcan lles at Amcanion Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

# **Diogelu** pobl rhag niwed

**Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan lles?**

- Mae Abertawe yn ddinas deg a chyfartal lle y gall plant gael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod, yn ddiogel o fewn eu teuluoedd.

- Mae Abertawe yn ddinas fywiog lle y gall pawb fyw bywydau hapus, iach a boddhaus gyda'i gilydd, cyflawni eu hamcanion lles eu hunain a heneiddio'n dda.

- Rydym yn ymroi i wella iechyd, lles a diogelwch oedolion, plant a theuluoedd agored i niwed, a hyrwyddo eu hawliau.

- Ein nod yw atal ac ymyrryd yn gynnar pan fydd person neu blentyn mewn perygl o niwed, camdriniaeth, esgeulustod neu gamfanteisio, a sicrhau bod y gofal a'r cymorth iawn yn cael eu darparu ar yr adeg iawn.

- Byddwn yn parhau i bwysleisio bod diogelu pobl agored i niwed yn fusnes i bawb, ar draws y Cyngor, drwy weithlu medrus a phroffesiynol, ein haelodau etholedig ac unrhyw sefydliad neu berson sy'n gwneud gwaith ar ein rhan.

**Yr heriau tymor hwy y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i'r afael â hwy.**

- Bydd rheoli effaith COVID-19 ac edrych tua'r dyfodol gyda chymorth Cynllun Adfer y Cyngor yn bwyslais allweddol yn 2022/23 a thu hwnt, wrth i ni barhau â rhaglenni trawsnewid i foderneiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae poblogaeth sy'n heneiddio sydd ag anghenion iechyd uwch ac sy'n gofyn mwy yn gyffredinol gan y system iechyd a gofal cymdeithasol, yn golygu bod angen dull mwy ataliol a chynaliadwy.

- Rydym yn gweithio mewn partneriaethau i wella canlyniadau iechyd a diogelwch ein dinasyddion mwyaf agored i niwed.

- Drwy gydgynhyrchu, rydym yn cynnwys pobl ym mhopeth a wnawn, gan ganolbwyntio ar 'yr hyn sydd bwysicaf' iddynt fel dinasyddion, eu rhoi wrth wraidd eu gofal a'u cymorth eu hunain, a thrwy gydgynhyrchu gwasanaethau i gyflawni canlyniadau gwell.

- Drwy sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd gwell ac sy'n fwy hygyrch ar gael i oedolion, plant a theuluoedd y mae arnynt angen eu gofal a'n cymorth.

- Mae Abertawe yn ymwneud â gwaith ar ymagwedd strategol ranbarthol i gefnogi anghenion lles gofalwyr a gofalwyr ifanc. Mae angen i hyn gael ei drosi'n ddull clir yn lleol i wneud gwahaniaeth i fywydau unigolion.

**Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan lles hwn.**

- **Diogelu'n fusnes i bawb** – diogelu ein pobl fwyaf agored i niwed, blaenoriaethu gwasanaethau a chyswllt yn ystod yr ymateb i Covid-19 a thu hwnt, parhau i

sicrhau bod diogelu yn 'fusnes i bawb' ar draws y Cyngor, o fewn ysgolion, gyda phartneriaid a thrwy Fwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg a phartneriaethau.

- **Atal ac ymyrraeth gynnar** – gweithio'n ataliol gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrais domestig. Drwy gydlynu'n ehangach ar draws yr ardal leol, cynnig cymorth i deuluoedd a hyrwyddo cyfleoedd lles i wella ein hansawdd bywyd mewn cymunedau cefnogol ac o fewn Abertawe fel Dinas Iachach.

- **Gwasanaethau statudol cydnerth o ansawdd uchel** – parhau i sicrhau bod y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gadarn, yn gydnerth ac yn effeithiol wrth ddarparu'r gofal a'r cymorth iawn i'r person iawn, yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn.

- **Gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc** – trwy hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc a gwella canlyniadau plant sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal, a lleihau nifer y bobl sy'n dod i'n gofal trwy strategaeth 'Cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn ddiogel gyda theulu' newydd, trwy roi gwelliannau i'r gwasanaeth Plant a Theuluoedd ar waith a thrwy'r Strategaeth Magu Plant Corfforaethol i'w helpu i gael bywyd gwell.

- **Trawsnewid Gofal a Chymorth ar gyfer oedolion agored i niwed** – cynorthwyo ein hoedolion mwyaf agored i niwed i aros yn ddiogel ac yn annibynnol gartref, gyda mynediad at wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol cydgysylltiedig i wella canlyniadau ar gyfer y dinasyddion mwyaf agored i niwed yn Abertawe, a thrwy ailgydbwyso'r gwasanaethau a gynigiwn i ganolbwyntio ar atal, ailalluogi ac adfer.

- **Cymorth i ofalwyr di-dâl, rhieni-ofalwyr a gofalwyr ifanc** – gan gydnabod cyfraniad hollbwysig gofalwyr di-dâl, rhieni-ofalwyr a gofalwyr ifanc at gynorthwyo pobl agored i niwed; drwy gydgynhyrchu dulliau newydd o wella mynediad at ystod o gymorth i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain.

- **Datblygu gweithlu proffesiynol medrus** – i sicrhau y gallwn recriwtio a chadw gweithlu sy'n cael y cymorth arweinyddiaeth a phroffesiynol y mae arnynt eu hangen i fod yn gydnerth a'r gorau y gallant fod o ran diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed, darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, hyrwyddo canlyniadau iechyd a lles gwell i ddinasyddion, ac wrth weithio gyda phartneriaid i gyflawni system iechyd a gofal cymdeithasol gynaliadwy, garbon sero net ac integredig.

**Cyfraniad yr amcan lles hwn at y nodau cenedlaethol.**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru iachach | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ☑ | ☑ | | ☑ | |

**Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.**

- *Atal problemau rhag codi neu waethygu* - datblygu gwasanaethau ataliol i helpu dinasyddion i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain a lleihau'r angen i bobl orfod defnyddio gwasanaethau statudol.

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* – gwneud gwaith ataliol, mewn ffordd sy'n seiliedig ar hawliau, gan gydgynhyrchu cynlluniau gofal a chymorth gyda dinasyddion i helpu i gynllunio ar gyfer mynd i'r afael â gofal yn y dyfodol a chefnogi canlyniadau, a nodi datrysiadau i fynd i'r afael â gofynion newydd a chynyddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* – mynd i'r afael â materion lles a chymdeithasol cymhleth fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, trais domestig, digartrefedd a helpu pobl i fyw a heneiddio'n dda gyda phartneriaid drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion cyrff cyhoeddus* – gweithio ar y cyd â phartneriaid drwy fwrdd partneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol rhanbarthol Bae'r Gorllewin, y bwrdd diogelu rhanbarthol a thrwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- *Cynnwys pobl* – cynnwys yr holl ddinasyddion, gan gynnwys gofalwyr, gofalwyr ifanc a dioddefwyr trais domestig a phlant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd wrth gydgynhyrchu eu cynlluniau gofal a chymorth eu hunain, a thrwy ganolbwyntio ar eu hawliau, eu cryfderau a'u hasedau a'r hyn y gallant ei gyfrannu at eu rhwydweithiau teuluol a'u cymunedau eu hunain.

**Sut byddwn yn mesur cynnydd[2].**

- Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd a'r angen am gymorth.

- Cynlluniau gofal a chymorth i oedolion a adolygwyd o fewn graddfeydd amser statudol.

- Asesiadau gofalwyr a gwblhawyd ar gyfer oedolion.

- Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, plant sy'n derbyn gofal, plant a gynorthwyir ac ymweliadau nad ydynt yn hwyr.

- Plant a phobl ifanc a gynorthwyir.

**Cyfraniad yr amcan lles hwn at Amcanion Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod | Pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda | Gweithio gyda natur | Cymunedau cryf |

[2] Dros dro tra'n disgwyl adolygiad a datblygu data.

| | | | |
|---|---|---|---|
| y gorau y gallant fod | | | |
| ☑ | ☑ | | ☑ |

# Gwella **Addysg a Sgiliau**

**Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan lles?**

- Rydym am i'r holl blant a phobl ifanc yn Abertawe fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog a mentrus sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes a chyfrannu'n greadigol at fywyd a gwaith.
- Rydym am i'r holl blant a phobl ifanc fynd i'r ysgol yn rheolaidd a bod yn ddiogel, yn wydn ac yn iach.
- Rydym am i'r holl blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gael cymorth amserol ac effeithiol i'w galluogi i gyrraedd eu potensial llawn.
- Rydym am annog a chynorthwyo dysgwyr agored i niwed a'u teuluoedd i ymgysylltu â dysgu.
- Fel rhieni corfforaethol Plant sy'n Derbyn Gofal, rydym am i'n plant sy'n derbyn gofal lwyddo yn yr ysgol a chael cyfleoedd i gael addysg bellach, addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Rydym am i'n plant a'n pobl ifanc fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau yn Abertawe ac fel dinasyddion byd-eang.
- Rydym am i'n plant a'n pobl ifanc feddu ar sgiliau Cymraeg da.

**Yr heriau tymor hwy y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i'r afael â hwy.**

- Sicrhau bod pobl ifanc yn meddu ar y sgiliau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) i allu achub ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil Bargen Ddinesig Bae Abertawe.
- Darparu ystad ysgolion sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif.
- Adfer o effaith y pandemig Covid-19 ar ddysgu, iechyd a lles plant a phobl ifanc.
- Mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n cael eu creu gan y cysylltiad rhwng cyrhaeddiad addysgol a ffyniant economaidd.
- Sicrhau bod y cymorth i ddarparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gryfach, yn llai gwrthwynebol ac yn rhoi plant a phobl ifanc wrth wraidd y penderfyniadau a wneir.
- Sicrhau cyfle cyfartal i bob dysgwr ddysgu Cymraeg a siarad yr iaith yn hyderus a hyrwyddo buddion dwyieithrwydd/ amlieithrwydd.

**Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan lles hwn.**

- **Presenoldeb a pherfformiad disgyblion –** Cefnogi a herio ysgolion i wella presenoldeb a pherfformiad dysgwyr, gyda ffocws ar wella llythrennedd (yn

Gymraeg ac yn Saesneg), rhifedd a chymhwysedd digidol ar gyfer plant o bob oedran, gan gynnwys y rheiny sy'n derbyn gofal, y rheiny sy'n derbyn addysg mewn lleoliad heblaw'r ysgol neu'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol.

- **Effaith Covid-19 –** cefnogi disgyblion, teuluoedd ac ysgolion i gynnal parhad addysg a lles yn ystod ymateb ac arferiad Covid-19.

- **Y Gymraeg –** cynyddu nifer y plant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ac yn gymdeithasol drwy Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

- **Llais y Disgybl –** Parhau i gynnwys plant a phobl ifanc yn eu haddysg a'u cymuned drwy Gynghorau Ysgol a digwyddiadau ymgysylltu.

- **Hawliau a chyfrifoldebau disgyblion –** Yn rhan o'n hymrwymiad i CCUHP, cynorthwyo ysgolion i lunio cwricwlwm a fydd yn helpu eu dysgwyr i ddeall ac arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau; parchu anghenion a hawliau pobl eraill; a dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned.

- **Tlodi ac anfantais –** Sicrhau nad yw ein plant diamddiffyn dan anfantais oherwydd tlodi neu ffactorau eraill sy'n cael effaith negyddol ar eu lles ac yn cyfyngu ar eu gallu i gyflawni a bodloni safonau uchel mewn addysg.

- **Yr ystad ysgolion –** Trawsnewid yr ystad ysgolion i ateb y galw ac ymateb i ddatblygiadau a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wrth sicrhau bod cymunedau'n elwa o gontractau.

- **Adeiladau ysgolion –** Drwy ddefnyddio ein rhaglen adeiladau a chynnal a chadw ysgolion, byddwn yn lleihau ein hôl troed carbon.

- **STEM –** Cydlynu ein system addysg a pharhau i gydweithio â phartneriaid i sicrhau ein bod yn creu'r bobl iawn â'r sgiliau iawn i gyflenwi'r economïau newydd ac ateb her Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

- **Prentisiaethau –** Codi dyheadau galwedigaethol a lefelau sgiliau yn y gweithle, gan gyfrannu at ddatblygu pobl ifanc ac oedolion uchelgeisiol a medrus drwy ddarparu prentisiaethau o ansawdd uchel.

- **Dysgu gydol oes –** Datblygu sgiliau dysgu annibynnol ar gyfer dysgu gydol oes i adlewyrchu natur newidiol y gwaith a chefnogi lles a chreadigrwydd a lleihau unigedd cymdeithasol.

**Cyfraniad yr amcan lles hwn at y nodau cenedlaethol.**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru iachach | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☑ | ☑ | ☑ | ☑ | ☑ | | ☑ |

**Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.**

- *Atal problemau rhag codi neu waethygu* – Cynorthwyo ysgolion i ddylunio cwricwla diddorol fel bod disgyblion yn gwella'r sgiliau a'r cymwysterau y mae arnynt eu hangen i symud ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth. Cymorth cynnar i ddysgwyr a'u teuluoedd i oresgyn rhwystrau rhag presenoldeb da. Cydweithio â theuluoedd sy'n dewis addysgu gartref.

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* – Sicrhau bod y cwricwlwm ysgol yn Abertawe yn rhoi cyfle i ddisgyblion ennill y sgiliau a'r cymwysterau ar gyfer y dyfodol, ac yn cyfrannu at lwyddiant Bargen Ddinesig Bae Abertawe wrth wella ffyniant.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* – Gweithio gydag awdurdodau lleol drwy drefniadau rhanbarthol i gefnogi gwasanaethau gwella ysgolion. Gwell cydweithio a rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau i sicrhau bod materion yn cael eu nodi a bod cymorth yn cael ei ddarparu'n gynnar i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc.

- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion cyrff cyhoeddus* – Creu synergedd rhwng amcanion cenedlaethol a lleol a datblygiad economaidd.

- *Cynnwys pobl* – Cynnwys disgyblion yn eu haddysg drwy ystod o ddulliau ymgysylltu er mwyn dangos ein bod yn gwerthfawrogi'r rhanddeiliaid allweddol hyn. Sicrhau bod safbwyntiau teuluoedd a'r gymuned ehangach yn cael eu hystyried.

**Sut byddwn yn mesur cynnydd[3].**

- Presenoldeb yn yr ysgol.

- Llai o waharddiadau o'r ysgol.

- Cyflawniad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, gan gynnwys plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor a phlant sy'n derbyn addysg mewn lleoliad heblaw'r ysgol.

- Nifer y disgyblion sy'n gwneud mathemateg a phynciau gwyddoniaeth, a'u cyrhaeddiad, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

- Llwyddiant cynlluniau unigol a phersonol ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed.

- Nifer y disgyblion sy'n gwneud Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4, a'u cyrhaeddiad.

- Amseroldeb wrth gwblhau Cynlluniau Datblygu Unigol statudol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

---

[3] Dros dro tra'n disgwyl adolygiad a datblygu data.

- Pobl ifanc y gwyddys eu bod yn NEET (nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) yn 16 oed.

- Nifer y bobl sydd wedi cofrestru ar brentisiaethau, a'u canlyniadau, yn y Cyngor a'r gymuned ehangach.

- Sicrhau ymgysylltiad gydag wythnosau hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n anweithgar yn economaidd neu'n ddi-waith drwy gymalau budd cymdeithasol mewn contractau.

- Nifer y dysgwyr ym Mlwyddyn 1 sy'n cael eu haddysg mewn ysgol gynradd Gymraeg.

**Cyfraniad yr amcan lles hwn at Amcanion Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

| Plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod | Pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda | Gweithio gyda natur | Cymunedau cryf |
|---|---|---|---|
| ☑ | ☑ | ☑ | ☑ |

# Trawsnewid ein **Heconomi a'n Hisadeiledd**

**Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan lles?**

- Rydym am wella perfformiad economaidd i greu cyfoeth a chyfleoedd cyflogaeth i wella lles economaidd dinasyddion Abertawe.

- Rydym am ysgogi'r holl gyfleoedd buddsoddi a chyllid i wireddu'r amcan hwn, gan gynnwys Bargen Ddinesig Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, Cronfa Trawsnewid Trefi, Economi a Chymru Greadigol Llywodraeth Cymru, ac arianwyr pwysig eraill.

- Rydym am sicrhau bod ein heconomïau lleol yn cael eu cefnogi i fod yn wydn yn wyneb heriau byd-eang, cenedlaethol a rhanbarthol, yn enwedig canol y ddinas a'n busnesau a'n sefydliadau bach annibynnol sy'n rhan o wead ein cymunedau mawr a bach.

- Rydym am ddarparu dull galluogol i gefnogi unigolion, busnesau a chymunedau trwy ein cymorth cyflogaeth a busnes, gweithgareddau adfywio, asedau diwylliannol, cysylltedd trafnidiaeth, cynllunio a fframweithiau cymorth a rheoleiddiol eraill wrth gyflawni'r mesurau ymarferol hyn.

- Rydym am sicrhau bod Abertawe yn lle a nodweddir gan gymunedau cynaliadwy gyda digon o dai o ansawdd da a lleoedd ar gyfer gwaith a hamdden.

- Rydym am barhau i ffurfio rhwydweithiau cryf a gweithgar gyda'n partneriaid allanol sy'n darparu ar y cyd â'r Cyngor.

- Rydym am fanteisio ar botensial twf sydd heb ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni cynaliadwy, cyflawni ymrwymiadau sero net, gwarchod yr amgylchedd a hybu'r economi.

**Yr heriau tymor hwy y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i'r afael â hwy.**

- Cymorth ac adfer ar ôl Covid.

- Dyfodol digidol a chysylltiedig a modelau newydd o weithio.

- Bwlch cynhyrchedd parhaus o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig – roedd cynhyrchedd Abertawe (gwerth ychwanegol gros (GVA) fesul awr a weithiwyd) yn 87.6% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig yn 2019.

- Mae nifer iach o fusnesau newydd yn cael eu ffurfio yn Abertawe, ond mae maint cymharol y sylfaen fusnes (497 o fusnesau fesul 10,000 o'r boblogaeth) islaw cyfartaledd Cymru (539) a'r Deyrnas Unedig (717), ac mae cyfraddau goroesi blwyddyn a phum mlynedd ar gyfer cwmnïau islaw'r cyfraddau cyfatebol ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig.

- Dyfodol newydd ar gyfer canol y ddinas a chanolfannau rhanbarthol a lleol llai o faint ac addasu i ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys dulliau trafnidiaeth a chysylltedd a'r effaith gadarnhaol ar leoedd.

- Yr argyfwng hinsawdd ac addasiadau iddo a chyflawni uchelgeisiau Sero Net y Cyngor.

- Mater parhaus diweithdra ac anweithgarwch a sicrhau cyflenwad o lwybrau a chyfleoedd go iawn. Mae cyfraddau gweithgarwch economaidd a chyflogaeth yn Abertawe yn is na chyfartaledd Cymru ac yn is fyth na chyfraddau cyfatebol y Deyrnas Unedig.

- Y Bwlch Incwm Aelwydydd – er bod Incwm Gwario Gros Aelwydydd wedi codi 11.2% yn Abertawe ers 2014, mae'n parhau i fod ar ei hôl hi o gymharu â Chymru a'r Deyrnas Unedig, lle y bu cynnydd o 14.5% a 19.7% yn y drefn honno.

- Y bwlch cyfradd cyflogau – yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae enillion amser llawn blynyddol cyfartalog yn Abertawe wedi gostwng 2.3%, tra bod y ffigurau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig wedi cynyddu 1.5% a 3.6% yn y drefn honno.

- Cyfrannu at leihau amddifadedd, drwy greu cyflogaeth gynaliadwy sy'n talu'n dda. Ceir pocedi o amddifadedd ar draws y sir, ac mae nifer o ardaloedd ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Abertawe o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae 17 (11.5%) o'i 148 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 191 (10%) mwyaf difreintiedig.

- Newid cymysgedd presennol y sector busnes tuag at gyflogaeth sgiliau uwch sy'n talu'n well. Ar hyn o bryd, mae 88.4% o gyflogaeth wedi'i seilio ar y sector gwasanaeth, ac mae busnesau mewn sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, sy'n tueddu i gynnig rolau â sgiliau gwell sy'n talu'n uwch, wedi'u tangynrychioli.

- Mae gan Abertawe gyfran uwch o fusnesau manwerthu na chyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig – bydd y cynlluniau adfywio arfaethedig yn helpu amrywiaethu canol y ddinas a'r canolfannau rhanbarthol.

- Sgiliau preswylwyr – parhau i gynyddu sgiliau pobl er mwyn iddynt fanteisio ar gyfleoedd mewn diwydiannau newydd a diwydiannau sy'n dod i'r amlwg.

- Mynd i'r afael â bylchau sgiliau mewn sectorau fel gofal, lletygarwch ac adeiladu.

- Cydnabod a gweithio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi ymwreiddio, troseddau a materion cysylltiedig, a darparu dewisiadau amgen a chymorth go iawn.

- Galluogi creu ffynonellau ynni cynaliadwy.

- Helpu lleihau bwlch hyfywedd eiddo masnachol drwy ddarparu lle swyddfa addasadwy a hyblyg o ansawdd da i ymateb i'r diddordeb uwch mewn buddsoddi

mewnol a thwf busnesau annibynnol lleol mewn canol trefi a lleoliadau diwydiannol modern.

**Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan lles hwn.**

- **Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol –** Arwain wrth weithredu Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn Abertawe a phecynnau gwaith a ffrydiau cyllid cysylltiedig, fel Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig a ffynonellau Llywodraeth Cymru.

- **Economi leol amrywiol a chynaliadwy –** Hyrwyddo a gwella economi leol amrywiol a chynaliadwy drwy rwydweithiau lleol cryf fel Partneriaeth Adfywio Abertawe, y partner datblygu Urban Splash a'r partneriaid darparu hamdden Freedom Leisure a Parkwood, i ddatblygu agendâu adfywio economaidd a diwylliannol Abertawe, gan gynnwys cyflawni rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, Cymru Greadigol, a thrwy weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) sy'n cefnogi adfywio Abertawe ac yn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy wedi'u seilio ar gysylltedd trafnidiaeth gynaliadwy.

- **Cymalau Budd Cymunedol –** Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer y di-waith tymor hir a'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd drwy gymalau budd cymunedol mewn contractau.

- **Cymorth busnes –** Ysgogi cymorth, cyngor a chyllid ar gyfer busnesau newydd a'n stoc bresennol o fusnesau drwy Fusnes Abertawe a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i barhau i arloesi rhaglenni cymorth fel defnyddiau masnachol yn y cyfamser, ac ymyriadau cymorth eraill yng nghanol y ddinas a chanolfannau rhanbarthol a llesol.

- **Rhwydwaith Creadigol –** Parhau i weithio drwy'r Rhwydwaith Creadigol cryf a chadarn i gefnogi seilwaith asedau diwylliannol a hamdden presennol, seilwaith sydd heb ei ddatblygu digon a seilwaith ar gyfer y dyfodol ar draws canol y ddinas a chanolfannau rhanbarthol a lleol.

- **Tai –** Gwneud cynnydd o ran tai strategol a safleoedd datblygu cymysg i ddiwallu'r angen am gartrefi a darparu cyflogaeth.

- **Diogelu'r cyhoedd –** Diogelu a hyrwyddo iechyd, lles, diogelwch a buddion defnyddwyr y bobl sy'n byw yn Abertawe neu'n ymweld â hi drwy weithio gydag eraill i gynnal diogelwch cyhoeddus ar draws amrywiaeth o wasanaethau rheoliadol megis llygredd, twyll a masnachu annheg, materion iechyd cyhoeddus a thai, ac ati.

**Cyfraniad yr amcan lles hwn at y nodau cenedlaethol.**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru iachach | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☑ | ☑ | ☑ | ☑ | ☑ | ☑ | ☑ |

**Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.**

- *Atal problemau rhag codi neu waethygu* – hyrwyddo cyfleoedd datblygu ar gyfer ynni adnewyddadwy a chludiant cynaliadwy i ddatblygu'r economi a helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* – ail-lunio Abertawe a'r economi ranbarthol i ateb heriau economaidd y dyfodol a newid technolegol drwy'r Fargen Ddinesig.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* – gweithio gyda thri awdurdod lleol arall, Llywodraeth Cymru, Prifysgolion, Byrddau Iechyd a'r sector preifat i gyflwyno'r Fargen Ddinesig.

- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion cyrff cyhoeddus* – mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol i gefnogi adfywio Abertawe a darparu glasbrint ar gyfer penderfyniadau cynllunio defnydd tir da a chyson ar gyfer y genhedlaeth bresennol a rhai'r dyfodol.

- *Cynnwys pobl* – proses ymgynghori ac ymgysylltu helaeth yn ystod pob cam o ddatblygu ein Cynllun Datblygu Lleol er mwyn nodi cyfleoedd i ddiwallu'r angen am dai a darparu cyflogaeth.

**Sut byddwn yn mesur cynnydd[4].**

- Prydlondeb wrth asesu ceisiadau cynllunio.

- Cymeradwyo ceisiadau cynllunio o bwys.

- Unedau tai a lleoedd llawr masnachol wedi'u creu o ganlyniad i'r rhaglen Trawsnewid Trefi

- Gwerth buddsoddi mewnol yn Abertawe.

- Gwariant twristiaeth.

- Prosiectau sy'n cynnwys cymalau budd cymunedol mewn contractau a chreu nifer o wythnosau hyfforddiant.

- Amser cwblhau cyfartalog ar gyfer chwiliadau pridiant tir.

**Cyfraniad yr amcan lles hwn at Amcanion Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

| Plant yn cael y dechrau gorau mewn | Pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda | Gweithio gyda natur | Cymunedau cryf |
|---|---|---|---|

[4] Dros dro tra'n disgwyl adolygiad a datblygu data.

| | | | |
|---|---|---|---|
| bywyd i fod y gorau y gallant fod | | | |
| ☑ | | ☑ | ☑ |

# Trechu Tlodi.

**Pam mae’r flaenoriaeth hon yn amcan lles?**

- Mae Cyngor Abertawe'n ymroddedig i leihau tlodi ac effeithiau tlodi ar ei ddinasyddion. Mae tlodi'n gallu cyfyngu ar ddyheadau, amharu ar berthnasoedd a golygu bod cyfleoedd bywyd yn cael eu colli.
- Rydym am gael Abertawe lle nad yw tlodi yn rhwystr rhag gwneud yn dda yn yr ysgol, cael bywyd iach a bywiog, datblygu sgiliau a chymwysterau a chael swydd ac incwm da.
- Rydym am sicrhau mynediad teg at wasanaethau angenrheidiol o ansawdd da drwy dargedu adnoddau lle maent yn cael yr effaith fwyaf, gyda phenderfyniadau am hyn yn cael eu gwneud ar y cyd â defnyddwyr gwasanaeth.
- Rydym am i'n holl breswylwyr gael y cyfle a'r adnoddau i ymuno mewn gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden ac wrth wneud penderfyniadau.
- Rydym am i bobl fwyafu eu hincwm a chael y gorau o'r arian sydd ganddynt.
- Rydym am i bobl osgoi talu'r 'premiwm tlodi', sef y costau ychwanegol y mae'n rhaid i bobl ar incwm isel eu talu am hanfodion megis tanwydd a chludiant.
- Rydym am sicrhau bod rhwystrau rhag cyflogaeth yn cael eu dileu.
- Rydym am sicrhau ein bod yn cynnwys pobl o gymunedau mwyaf difreintiedig Abertawe fel ein bod yn lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ac oddi mewn iddynt.

**Yr heriau tymor hwy y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i’r afael â hwy.**

- Mae lefelau tlodi yng Nghymru yn parhau i fod yn uchel, ac mae bron chwarter o’r bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi.
- Cymru sydd â’r gyfradd tlodi plant waethaf o holl wledydd y Deyrnas Unedig, gyda 31% o blant yn byw islaw’r llinell dlodi.
- Gall pobl sy'n byw yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Abertawe ddisgwyl byw'n iach am bron 22 o flynyddoedd yn hwy na'r rheini sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Abertawe.
- Mae’r costau ychwanegol y mae’n rhaid i bobl ar incwm isel eu talu am hanfodion, fel trafnidiaeth, tanwydd a bwyd, yn parhau i fod yn uchel iawn.
- Yn Abertawe, yr unig ffordd y caiff pobl y gorau o'u harian yw os oes ganddynt ddigon o wybodaeth eisoes, os ydynt wedi'u cysylltu'n dda yn ddigidol ac yn gallu mynd o le i le yn hawdd i fanteisio ar fargeinion. Y bobl sydd lleiaf tebygol o fod yn y sefyllfa hon yw'r rhai sydd eisoes yn dioddef effeithiau tlodi.

- Mae effaith andwyol amddifadedd yn dechrau'n ifanc iawn ac yn cynyddu drwy gydol oes person. Gall camau gweithredu sy'n gymesur â'r angen i gefnogi teuluoedd a phlant yn ystod y blynyddoedd cynnar iawn helpu i liniaru'r effaith hon.

- Mae gan Abertawe niferoedd mawr o bobl oed gweithio nad ydynt yn gweithio o hyd, ac mae angen mynd i'r afael â rhwystrau rhag gwaith, megis profiad, gofal plant a chludiant.

- Rhieni sengl sydd â'r cyfraddau uchaf o dlodi mewn gwaith.

- Mae'r newidiadau parhaus o ran Diwygio Lles yn gallu creu problemau i'r rheiny sydd eisoes mewn argyfwng ariannol, a gwthio mwy o bobl i dlodi.

- Y cwymp economaidd a chymdeithasol a goblygiadau uniongyrchol a thymor hwy pandemig Covid-19 ar dlodi yn Abertawe.

**Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan lles hwn.**

- **Strategaeth Trechu Tlodi –** Gweithio mewn partneriaeth i drechu tlodi, gan gynnwys diwygio a gweithredu *Strategaeth Trechu Tlodi* Cyngor Abertawe, gan sicrhau bod trechu tlodi yn fusnes i bawb.

- **Cydlyniant Cymunedol –** Gwella cydlyniant cymunedol a lleihau anghydraddoldebau o ran incwm, adnoddau a chyfleoedd drwy sicrhau bod preswylwyr yn gallu cymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas a chyfrannu at eu cymunedau.

- **Mynediad at Wasanaethau –** Sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch, yn gynhwysol, yn amserol ac yn effeithiol, a bod y rheiny sydd â phrofiad bywyd yn cael eu cynnwys wrth gydgynhyrchu datrysiadau.

- **Y Blynyddoedd Cynnar –** Gweithio gyda'n partneriaid iechyd i sicrhau, drwy ein Strategaeth Blynyddoedd Cynnar, fod plant yn eu blynyddoedd cynnar ac yn y Cyfnod Sylfaen yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o ran datblygiad ieithyddol, emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol a'u bod yn barod i ddysgu ac i fynd i'r ysgol.

- **Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth –** Gweithio gyda'n partneriaid i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau addysgol, hyfforddiant a chyflogaeth drwy gydol bywyd.

- **Cyflogaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn –** Darparu dull cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gynorthwyo pobl i oresgyn eu rhwystrau rhag cyflogaeth.

- **Diwygio lles –** Helpu mynd i'r afael ag effeithiau diwygio lles ac anfantais economaidd-gymdeithasol drwy gynorthwyo pobl i hawlio'r holl fudd-daliadau a chymorth ariannol sydd ar gael iddynt, lleihau costau a gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ganddynt, gan wella mynediad at gyfleoedd i wella eu lles ariannol.

- **Atal digartrefedd –** Atal digartrefedd a chynorthwyo pobl i gadw eu tenantiaethau er mwyn helpu rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i deuluoedd a chymunedau, drwy ddatblygu a gweithredu Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai newydd ar gyfer 2022-2026.

- **Tai cyngor newydd ynni-effeithlon –** Parhau i fuddsoddi mewn tai cyngor presennol, darparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni / datgarboneiddio i leihau biliau tanwydd a thlodi tanwydd ar gyfer tenantiaid y cyngor a helpu cyrraedd targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer datgarboneiddio.

- **Tai fforddiadwy –** Adeiladu mwy o dai cyngor ynni-effeithlon a chefnogi adeiladu tai fforddiadwy i helpu i fodloni'r angen am dai, adfywio ystadau a sicrhau buddion economaidd a chyflogaeth ehangach.

**Cyfraniad yr amcan lles hwn at y nodau cenedlaethol.**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru iachach | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☑ | ☑ | ☑ | ☑ | ☑ | ☑ | |

**Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.**

- *Atal problemau rhag codi neu waethygu* – helpu i atal biliau tanwydd uchel a'r 'premiwm tlodi' drwy adeiladu tai cyngor ynni-effeithlon.

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* - helpu i oresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth a chael pobl i weithio drwy gynlluniau cyflogaeth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gofal plant a chludiant fforddiadwy.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* - gweithio gyda'n partneriaid iechyd drwy'r cynllun *Dechrau'n Deg* i sicrhau bod plant yn eu blynyddoedd cynnar yn barod ar gyfer yr ysgol a dysgu.

- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion cyrff cyhoeddus* - cydnabod bod lleihau tlodi'n fusnes i bawb a bod gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rôl allweddol wrth sicrhau bod hyn yn digwydd ar draws yr holl sectorau.

- *Cynnwys pobl* - Gweithio mewn cymunedau a chynnwys pobl ac ymgysylltu â hwy'n llwyddiannus a chydgynhyrchu gyda phobl i ddatblygu gwydnwch a lleihau dibyniaeth.

**Sut byddwn yn mesur cynnydd[5].**

[5] Dros dro tra'n disgwyl adolygiad a datblygu data.

- Budd-daliadau lles yn cael eu sicrhau gan y gwasanaeth Hawliau Lles.

- Prydlondeb wrth brosesu ceisiadau Budd-dal Treth y Cyngor a thai a newid amgylchiadau.

- Nifer cyfartalog y diwrnodau y mae teuluoedd digartref â phlant yn eu treulio mewn llety gwely a brecwast.

- Unedau tai fforddiadwy a gyflwynwyd.

- Nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi drwy Gymorth Cyflogadwyedd.

- Nifer y cymwysterau achrededig a gyflawnwyd gan oedolion gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol.

- Cyflwyno'r *Strategaeth Trechu Tlodi* gan ddangos cyflawniad profadwy.

- Cyflwyno ein Strategaeth Rhagor o Gartrefi a'n Strategaeth Ddigartrefedd.

**Cyfraniad yr amcan lles hwn at Amcanion Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

| Plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod | Pobl yn byw’n dda ac yn heneiddio’n dda | Gweithio gyda natur | Cymunedau cryf |
|---|---|---|---|
| ☑ | ☑ | ☑ | ☑ |


# Cyflawni o ran **Adfer Natur a’r Newid yn yr Hinsawdd**

**Pam mae’r flaenoriaeth hon yn amcan lles?**

- Yn dilyn cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, cyhoeddodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd ym mis Mehefin 2019 ac Argyfwng Natur ym mis Tachwedd 2021.

- Gan ddefnyddio map trywydd Llywodraeth Cymru tuag at sero net, bydd Cyngor Abertawe yn cyd-fynd â’i egwyddorion, gan wybod beth y mae angen ei wneud nawr, pan fydd carbon isel yn arferol erbyn 2022-26 a phan fydd dewis di-garbon yn gyffredin erbyn 2030.

- Mae trefniadau llywodraethu cadarn wedi cael eu sefydlu yn y cyngor i weithredu ar heriau o’r fath a bydd yr holl weithgarwch yn cael ei sbarduno o fewn paramedrau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a’r Cynllun Corfforaethol a Chynllun Lles Abertawe (BGC).



- Er mwyn sicrhau hynny yn ogystal â chyflawni sero net 2030 ar gyfer Cyngor Abertawe, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, sefydliadau, ysgolion a busnesau i gefnogi Abertawe fel sir gyfan a'i dinasyddion â'u hymdrechion i gyrraedd statws sero net erbyn 2050, gan gyd-fynd â Chymru Sero Net – Cyllideb Garbon (2) 2022/2025. Sefydlu Siarterau ar gyfer yr Hinsawdd a Natur a Wal Addewidion i annog cyfranogiad gweithredol a helpu i greu Abertawe iachach, fwy ffyniannus a bioamrywiol/ ecolegol gydnerth.

- Abertawe yw un o'r siroedd mwyaf ecolegol gyfoethog ac amrywiol yn y DU. Mae angen cynnal, gwella a rheoli ei hamrywiaeth unigryw o gynefinoedd a rhywogaethau a'i hamrywiaeth hyfryd o barciau, mannau gwyrdd, gwarchodfeydd natur, traethau a thirweddau yn gynaliadwy er budd pawb nawr ac yn y dyfodol.

- Mae ein hamgylchedd naturiol a bioamrywiaeth dan fygythiad ac yn dirywio oherwydd gweithgareddau anghynaliadwy bodau dynol. Mae cynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu colli ar gyfradd ddychrynllyd ac anghynaliadwy. Mae angen i ni gynyddu ymwybyddiaeth o effeithiau colli bioamrywiaeth a'r newid yn yr hinsawdd yn lleol a darparu gwybodaeth, cyngor, a chymorth a chymhellion ymarferol er mwyn annog pobl eraill i weithredu a chydweithio i gyflawni datrysiadau cadarnhaol i'r heriau hyn.

- Rydym am i bawb gael mynediad at amgylchedd naturiol eithriadol Abertawe, ei ddeall, ei werthfawrogi ac elwa ohono, ac rydym am iddynt gyfrannu at ofalu amdano a'i wella, gan arwain at Abertawe iachach, wyrddach a mwy ffyniannus.

- Mae ein goroesiad a'n hansawdd bywyd yn y dyfodol yn dibynnu ar amgylchedd naturiol iach a chydnerth, y buddion niferus y mae'n eu darparu i gymdeithas a lleihau ein hallyriadau carbon i sero net.

- Mae gennym gyfrifoldeb moesol i ofalu am fioamrywiaeth am ei gwerth cynhenid ei hun.

**Yr heriau tymor hwy y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i'r afael â hwy.**

- Bydd targed o 2030 ar gyfer y sector cyhoeddus, cyn targed Llywodraeth Cymru o 2050 ar gyfer Cymru gyfan, yn rhoi'r cyfle gorau i ni o gadw cynhesu byd-eang islaw 1.5°C. Dyma'r trobwynt pryd y bydd yr effeithiau ar yr hinsawdd yr ydym eisoes yn eu profi yn mynd o ddrwg i waeth i drychinebus, o bosibl. Byddwn yn gweld systemau naturiol yn croesi pwyntiau perygl, gan sbarduno newidiadau parhaus fel stormydd eithafol, tywydd poeth, a cholli cynefinoedd naturiol a rhywogaethau ar raddfa fawr.

- Rydym ar adeg dyngedfennol ar gyfer adferiad natur a heb newid trawsffurfiol ar frys, bydd llawer o'n rhywogaethau a'n cynefinoedd yn parhau i ddirywio neu ddiflannu.

- Atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth drwy leihau niwed a defnydd anghynaliadwy a symud tuag at sefyllfa lle rydym yn gweithio gyda natur i gynnal ecosystemau

iach a chydnerth a fydd yn parhau i ddarparu'r buddion tymor hir i ansawdd bywyd (neu wasanaethau ecosystem) yr ydym oll yn dibynnu arnynt.

- Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, sef un o'r heriau mwyaf rydym yn eu hwynebu ac mae angen i ni leihau ein hôl troed carbon a lliniaru ar gyfer y risgiau a'r effeithiau tebygol ac addasu iddynt.

- Creu swyddi gwyrdd, carbon isel, amgylcheddol gyfrifol a chynaliadwy o safon sy'n gwneud yn fawr o'n hadnoddau naturiol unigryw e.e. drwy dwristiaeth amgylcheddol, rheoli tir a'r arfordir yn gynaliadwy, cynhyrchu bwyd yn lleol, rheoli gwastraff yn gynaliadwy, effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a dal carbon. Fel y cyfryw, byddwn yn archwilio a chefnogi prosiectau fel ynni adnewyddadwy ar y tir ac ar y môr sy'n cyd-fynd â'r uchelgeisiau hyn.

- Lleihau anghydraddoldebau iechyd a lles drwy gynnal a gwella amgylchedd naturiol hygyrch o ansawdd uchel, yn ogystal â sicrhau mynediad teg at ynni, cartrefi ac opsiynau teithio carbon isel, bwyd o ffynonellau cynaliadwy a chyfleoedd swyddi gwyrddach.

- Bydd rheoli a gwella ansawdd ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys aer, dŵr, priddoedd a bioamrywiaeth, yn helpu i gynyddu cydnerthedd ecolegol Abertawe a lles ei thrigolion.

**Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan lles hwn.**

- **Bioamrywiaeth –** Datblygu, mabwysiadu a gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol (Adran 6) yn unol â chylch adrodd 3 blynedd Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â pharatoi a chyflawni Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar y cyd â Phartneriaeth Natur Abertawe a pharatoi Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer y sir gyfan.

- **Strategaeth Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd –** Ymgorffori Strategaeth a Chynllun Gweithredu Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd, gan annog a gweithio gyda phartneriaid, sefydliadau, busnesau, cymunedau ac unigolion i gefnogi adferiad natur a lleihau eu hôl troed carbon, a llofnodi'r Siarter/Addewid Natur a'r Hinsawdd.

- **Cynllun Gweithredu Ynni –** Cyflawni'r cynllun gweithredu ynni, gan weithio tuag at greu economi carbon isel sy'n hyrwyddo ynni adnewyddadwy ac yn cymryd camau i leihau ôl troed Cyngor Abertawe ac Abertawe yn unol â chanllawiau adrodd Llywodraeth Cymru.

- **Caffael a gwerth cymdeithasol –** Adolygu ymagwedd y Cyngor at gaffael i ymgorffori ei werth cymdeithasol yn ei feini prawf dyfarnu, gan fwyafu gwariant lleol yn yr ardal a'r rhanbarth a lleihau ôl troed carbon ei weithgareddau a gomisiynir.

- **Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy –** Ymsefydlu a chyflawni strategaeth trafnidiaeth gynaliadwy a chynlluniau gweithredu ymgorfforedig ar deithio llesol, fflyd werdd, fflyd lwyd a goleuadau stryd.

- **Tai cyngor ynni-effeithlon –** Parhau i ddatblygu rhaglen adeiladau newydd ynni-effeithlon y Cyngor, sef Mwy o Dai Cyngor, i safonau sero net ac, yn amodol ar gyllid, dechrau datgarboneiddio ei stoc dai bresennol yn unol â chanllawiau sy'n dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cymru.

- **Ysgolion yr 21ain Ganrif a Sero Newydd –** Byddwn yn dechrau a sicrhau bod dyluniad a datblygiad holl ysgolion newydd yr 21ain Ganrif yn cyrraedd targedau carbon sero net o fis Ionawr 2022 ymlaen. Bydd hyn yn cynnwys adeiladau newydd a gwaith adnewyddu mawr.

- **Adeiladau a deunyddiau sero net –** Byddwn yn ceisio mwyafu cyfleoedd i leihau'r carbon mewn gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu mewn adeiladau cyhoeddus presennol ac yn gweithio tuag at ddefnyddio deunyddiau sero net erbyn 2030.

- **Strategaeth lleihau gwastraff –** Cyflawni strategaeth lleihau gwastraff, gan gynnwys lleihau faint o gynhyrchion a deunyddiau na ellir eu hailgylchu a ddefnyddiwn i'r eithaf, ailgylchu mwy o wastraff a hyrwyddo economi gylchol.

- **Ansawdd aer, dŵr a phridd –** Gweithredu i gynnal a gwella ansawdd ein haer, dŵr a phriddoedd.

**Cyfraniad yr amcan lles hwn at y nodau cenedlaethol.**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru iachach | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☑ | ☑ | | ☑ | ☑ | ☑ | ☑ |

**Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.**

- *Atal problemau rhag codi neu waethygu* - Drwy roi terfyn ar ddirywiad bioamrywiaeth a chynnal a chyfoethogi amgylchedd naturiol cydnerth, byddwn yn cynnal gwasanaethau ecosystemau hanfodol (e.e. lliniaru llifogydd, ansawdd aer a dŵr, storio carbon a pheillio) a helpu i gynnal iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl. Drwy helpu pobl i ddeall achosion problemau a sut gallwn, drwy weithio gyda natur, atal problemau rhag codi. Drwy gyrraedd targedau sero net, gallwn helpu osgoi cynhesu byd-eang a'i ganlyniadau dilynol. Bydd gweithgarwch addasu yn ein helpu i baratoi ar gyfer newid y nodwyd eisoes na ellir ei osgoi.

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* - Rydym am atal colli bioamrywiaeth, hyrwyddo ecosystemau cydnerth iach a chryfhau isadeiledd gwyrdd i addasu a lliniaru ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd a sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol a'r buddion a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo'n cael eu gwarchod er budd cenedlaethau'r dyfodol. Rydym am gyflawni carbon sero net.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* - Byddwn yn parhau i gefnogi pobl eraill a chydweithio â nhw i gydlynu'r broses o gynllunio a chyflwyno camau gweithredu a mwyafu'r defnydd o adnoddau.

- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion corff cyhoeddus* - Drwy gynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'r newid yn yr hinsawdd a sicrhau eu bod yn cael eu hystyried ar gamau cynnar gwneud penderfyniadau/dylunio cynlluniau a phrosiectau, gellir lleihau'r potensial ar gyfer gwrthdaro.

- *Cynnwys pobl* - Byddwn yn datblygu gallu ac yn cyflawni mwy drwy gynnwys a chefnogi'r gymuned leol i gyfranogi wrth nodi a chyflwyno mentrau sy'n cynnal ac yn gwella'r amgylchedd naturiol a lleihau ein hôl troed carbon. Galluogir mwy o bobl i gael mynediad i'w hamgylchedd naturiol i'w fwynhau a chyfrannu at liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

**Sut byddwn yn mesur cynnydd[6].**

- Monitro'r broses o gyflawni Adran 6 y Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur a nod Cymru Gydnerth drwy ddulliau cynllunio busnes ac adrodd blynyddol hyd at 2027. Byddwn yn adrodd i Lywodraeth Cymru bob 3 blynedd yn unol â'n Dyletswydd Bioamrywiaeth.

- Ymsefydlu Strategaeth Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd a monitro'r broses o gyflawni Cynlluniau Gweithredu unigol hyd at 2027.

- Parhau i fonitro ansawdd aer a dŵr.

- Monitro'r broses o gyflawni targedau'r cynllun gweithredu ynni a gynigiwyd hyd at 2027.

- Gosod mesurau newydd ar gyfer monitro effaith ein trefniadau caffael nwyddau a gwasanaethau yn unol â phecyn cymorth mesur carbon Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg.

- Ymsefydlu a chyflawni strategaeth trafnidiaeth gynaliadwy hyd at 2027.

- Parhau i adrodd ar nifer y cartrefi newydd a adeiladwyd i safonau carbon sero net a gosod mesurau newydd ar gyfer cofnodi datgarboneiddio ein stoc bresennol yn unol â chanllawiau sy'n dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cymru.

- Adrodd ar gyflawni strategaeth lleihau gwastraff.

**Cyfraniad yr amcan lles hwn at Amcanion Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod | Pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda | Gweithio gyda natur | Cymunedau cryf |

[6] Dros dro tra'n disgwyl adolygiad a datblygu data.

| | | | |
|---|---|---|---|
| y gorau y gallant fod | | | |
| ☑ | ☑ | ☑ | ☑ |

# Trawsnewid a Datblygu'r Cyngor yn y Dyfodol

**Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan lles?**

- Rydym am weithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a gweithio gydag aelodau eraill o'r 'teulu llywodraeth leol' ar gydweithio rhanbarthol.
- Rydym am foderneiddio a thrawsnewid y Cyngor drwy ein rhaglen drawsnewid *Cyflawni Pethau'n Well Gyda'n Gilydd*. Yn y tymor canolig i'r tymor hir, bydd y rhaglen yn adeiladu ar yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i'r pandemig a sut gallwn ddarparu gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd i helpu i fynd i'r afael â'r galw cynyddol a lleihau cyllidebau refeniw.
- Rydym am fod yn sefydliad cynaliadwy sy'n fwy effeithlon yn y dyfodol ac sy'n sicrhau bod costau ac arbedion yn cael eu hystyried yn y tymor canolig i'r tymor hwy, a rhoi sylw dyladwy i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Rydym am ymgysylltu'n effeithiol ac yn ystyrlon â'n rhanddeiliaid, gan gynnwys ein staff, dinasyddion Abertawe a'n sefydliadau partner, fel bod y Cyngor yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n gwella mynediad at wasanaethau, eu hansawdd a'r ffordd y cânt eu darparu.
- Rydym am ymsefydlu cydraddoldeb, amrywiaeth a meddwl yn integredig ar draws y Cyngor.
- Rydym am sicrhau bod blaenoriaethau, amcanion a themâu'r Cyngor yn cael eu hymsefydlu ym mhopeth a wnawn a bod diwylliant y sefydliad yn gyson ac yn denu'r dalent iawn ar gyfer y dyfodol.
- Rydym am ddatblygu a chynnal dull sy'n galluogi preswylwyr i ddefnyddio sianeli ar-lein yn gyntaf, gan sicrhau bod yr holl unigolion a chymunedau, gan gynnwys y rhai mwyaf difreintiedig, yn gallu cael mynediad at wasanaethau ar-lein.
- Rydym am i'r cyhoedd chwarae eu rhan drwy gydgynhyrchu gwasanaethau a helpu i'w cynnal, gyda mwy o bobl yn cymryd rhan ym musnes y Cyngor a gwneud penderfyniadau ar bethau sy'n effeithio arnyn nhw a'u teuluoedd a'u cymunedau.
- Rydym am barhau i adolygu ein holl wasanaethau i sicrhau eu bod yn cael eu darparu yn y ffordd orau, gan weithio gyda phartneriaid ac atal pobl rhag gorfod defnyddio gwasanaethau statudol cymhleth.

**Yr heriau tymor hwy y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i'r afael â hwy.**

- Er gwaethaf cynnydd mewn cyllid oherwydd y pandemig, mae'r sefyllfa ariannu tymor hir sy'n wynebu Cyngor Abertawe yn heriol.
- Disgwylir i'r galw am wasanaethau cyhoeddus barhau i gynyddu.

- Mae'r ffordd y mae pobl yn rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus yn newid.

- Mae patrymau demograffig yn newid, gan gynnwys gostyngiad mewn cyfraddau ffrwythlondeb a chynnydd mewn disgwyliad oes.

- Mae angen darparu cyfleoedd i'r holl boblogaethau a lleoedd yn gyfartal ar draws pob rhan o gymdeithas.

- Disgwylir i esblygiad technoleg barhau i arwain y ffordd wrth ddiffinio sut y bydd cymdeithasau ac economïau modern yn rhyngweithio a datblygu yn y dyfodol, nid lleiaf o ran ein dull o ryngweithio'n gymdeithasol, ble rydym yn gweithio, a sut rydym yn cael mynediad at wasanaethau allweddol fel addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

**Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan lles hwn.**

- **Gweithio'n rhanbarthol –** Gweithio gyda phartneriaid Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar gydweithio rhanbarthol i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio datblygiad strategol, cynllunio trafnidiaeth ranbarthol, hyrwyddo lles economaidd a chyflawni strategaeth ynni ranbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru.

- **Adfer a thrawsnewid –** Parhau â rhaglen drawsnewid tymor byr, tymor canolig a thymor hir y Cyngor, sef *'Cyflawni Pethau'n Well Gyda'n Gilydd'*, gan weithio tuag at Gyngor sy'n gynaliadwy, yn effeithlon ac yn effeithiol ym mhopeth y mae'n ei wneud, gan roi'r dinesydd wrth wraidd penderfyniadau.

- **Rheoli adnoddau –** Sicrhau bod gennym ddull cydgysylltiedig sy'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth, archwilio strategaethau cyllid a buddsoddi arloesol a sut gellir mwyafu gwerth asedau'r Cyngor, cynllunio cyllidebol tymor hwy sy'n cydbwyso'r gyllideb ag arbedion dangosol wedi'u prisio a rhaglen gyfalaf sy'n cysylltu'r cyfalaf â refeniw, y gost i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r buddion disgwyliedig.

- **Buddion cymunedol –** Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru gan roi pwyslais masnachol ar ailfuddsoddi yn yr economi leol ac adolygu dull y Cyngor o gaffael er mwyn sicrhau buddion economaidd a chymunedol lleol, yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy.

- **Cynnwys mewn democratiaeth leol –** Parhau i foderneiddio ymgysylltiad y cyhoedd â democratiaeth leol a phrosesau penderfynu'r Cyngor er mwyn sicrhau amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ac ymgynghori, ymgysylltu, cyfranogi a chydgynhyrchu effeithiol ac ystyrlon â'n rhanddeiliaid, gan gynnwys ein staff, dinasyddion Abertawe a'n sefydliadau partner, fel bod y Cyngor yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n gwella mynediad at wasanaethau, eu hansawdd a'r ffordd y cânt eu darparu.

- **Cydraddoldeb a Hawliau Dynol –** Parhau i weithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020/24, gweithio tuag at ddod yn Ddinas Hawliau Dynol ac ymsefydlu cydraddoldeb, amrywiaeth a meddwl yn integredig ar draws cynlluniau gweithredu a phrosesau penderfynu'r Cyngor.

- **Datblygu'r gweithlu –** Gweithredu Strategaeth Gweithlu Sefydliadol y Cyngor i gyflawni gwasanaethau cydgysylltiedig wedi'u trawsnewid. Sicrhau bod gennym y bobl iawn sydd â'r sgiliau iawn, gan gynnwys sgiliau Cymraeg, yn y mannau iawn, a bod Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn ein galluogi i fod yn sefydliad cynaliadwy, effeithlon ac effeithiol gyda diwylliant sy'n denu'r dalent iawn ar gyfer y dyfodol.

- **Digidol yn Gyntaf –** Parhau i ymsefydlu strategaeth "Digidol yn Gyntaf", gan sicrhau bod dinasyddion yn gallu cael at fwy o wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor ar-lein os ydynt eisiau, ar yr un pryd â hyrwyddo Cynhwysiant Digidol a mynediad at wasanaethau ar-lein ar gyfer eraill drwy gynnig cyfleoedd dysgu gydol oes, cyrsiau cyfrifiadurol am ddim a hyfforddiant i'n dinasyddion.

- **Gweithio mewn partneriaeth –** Parhau i weithio a chydweithredu â'n partneriaid, gan gynnwys y trydydd sector, i annog a chefnogi gweithredu cymunedol a grwpiau dinasyddion i gynnal ac ychwanegu gwerth at adnoddau, isadeiledd a gwasanaethau cymunedol.

- **Cynnwys y gymuned –** Datblygu mwy o weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth, gan gynnwys gyda Chynghorwyr, cymunedau, sefydliadau a grwpiau dinasyddion, er mwyn annog a galluogi mwy o gyfrifoldeb cymunedol am asedau, gwasanaethau, adnoddau a chyllid, gyda phenderfyniadau datganoledig sy'n darparu cynaliadwyedd tymor hir mewn cymunedau.

**Cyfraniad yr amcan lles hwn at y nodau cenedlaethol.**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru iachach | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☑ | | ☑ | ☑ | ☑ | | |

**Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.**

- *Atal problemau rhag codi neu waethygu* – helpu i atal pobl rhag gorfod troi'n syth at wasanaethau statudol drwy lif 'atal' y rhaglen *Cyflawni Pethau'n Well Gyda'n Gilydd*.

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* - newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio, gan gynnwys mwy o wasanaethau digidol i adlewyrchu'r cam yn ystod Covid-19 tuag at fwy o bobl yn dymuno ac angen cael mynediad at wasanaethau drwy ddulliau digidol, symudol, y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* - cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill a'r trydydd sector i gyflwyno gwasanaethau.

- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion cyrff cyhoeddus* - gwella ymgysylltu â phartneriaid, gan gynnwys y trydydd sector, drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i helpu i gefnogi trawsnewid gwasanaethau'r Cyngor.

- *Cynnwys pobl* – cynnwys dinasyddion wrth ddatblygu polisïau ac yn y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau, gan alluogi gweithredu a chyfrifoldeb cymunedol.

**Sut byddwn yn mesur cynnydd[7].**

- Arbedion ac incwm rhagweledig refeniw'r gronfa gyffredinol a nodwyd ar gyfer y flwyddyn o'u cymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor.

- Nifer y taliadau a ffurflenni a gwblhawyd ar-lein.

- Unrhyw achosion o dorri diogeledd data.

- Y gweithlu'n cael ei gefnogi i ddatblygu sgiliau a dysgu pethau newydd fel rhan o strategaeth datblygu sefydliadol wedi'i thargedu tuag at weithlu mwy hyblyg a gweision cyhoeddus yr 21[ain] ganrif.

- Salwch staff.

- Buddiolwyr sydd wedi mynychu'r rhaglen "Cael Abertawe ar-lein".

**Cyfraniad yr amcan lles hwn at Amcanion Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

| Plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod | Pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda | Gweithio gyda natur | Cymunedau cryf |
|---|---|---|---|
| | ☑ | | ☑ |

[7] Dros dro tra'n disgwyl adolygiad a datblygu data.

## 4. Monitro Cyflawniad – adolygu perfformiad yn barhaol

Byddwn yn monitro'r cyflawni ac yn adolygu ein cynnydd wrth gyflawni ein Hamcanion Lles fel a ganlyn:

**Sut byddwn yn monitro cynnydd**

- Drwy adroddiadau monitro perfformiad chwarterol a blynyddol i'r Cabinet.

**Sut byddwn yn adrodd am gyflawniadau**

- Yn chwarterol ac yn flynyddol drwy'r Cabinet.
- Adroddiad Blynyddol.

**Pryd a sut caiff y cynllun hwn ei ddiwygio**

- Adolygiad a diweddariad blynyddol.

## 5. Camau Nesaf – yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Gwnaed cynnydd da wrth wreiddio ffyrdd cynaliadwy o weithio yn ein ffordd o gynnal busnes, fel y dangoswyd yn y Cynllun hwn; rydym am barhau i adeiladu ar hyn.

Er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau'n llawn o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym am:

- sicrhau bod digon o allu ac adnoddau cydlynol wrth gynllunio'n strategol;
- parhau i chwilio am ffyrdd o gynyddu cyfranogiad dinasyddion;
- ceisio creu rhagolwg strategol tymor hwy, gan edrych hyd at 25 a mwy o flynyddoedd i'r dyfodol;
- sicrhau integreiddio strategol a chydlyniant rhwng cynlluniau a strategaethau;
- gweithio i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn llywio'r strategaeth a'r broses gwneud penderfyniadau, a;
- pharhau i wreiddio ffyrdd cynaliadwy o weithio ymhellach.

## 6. Ble i gael rhagor o wybodaeth

Strategaethau, cynlluniau a pholisïau
www.abertawe.gov.uk/polisiau

Perfformiad ac ystadegau
www.abertawe.gov.uk/ystadegau

Cyllid a chyllideb y Cyngor
www.abertawe.gov.uk/cyllidachyllideb

Craffu
www.abertawe.gov.uk/craffu

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
https://www.abertawe.gov.uk/deddfllesiantcenedlaethaurdyfodol

Diogelu
http://www.abertawe.gov.uk/diogelu

Ysgolion a dysgu
http://www.abertawe.gov.uk/ysgolionadysgu

Hawliau Plant a Phobl Ifanc – CCUHP
http://www.abertawe.gov.uk/ccuhp

Bargen Ddinesig Bae Abertawe
https://www.abertawe.gov.uk/BargenDdinesigBaeAbertawe

Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg
http://www.westernbay.org.uk/

Partneriaeth (Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) yn flaenorol)
http://www.erw.cymru/

Strategaethau Tlodi ac Atal
https://www.abertawe.gov.uk/strategaethautlodiacataltlodi

Natur a'r newid yn yr hinsawdd
https://www.abertawe.gov.uk/newidynyrhinsawdd

Dweud eich Dweud – ymgynghoriadau
http://www.abertawe.gov.uk/dweudeichdweud

Cynllun Cydraddoldeb Strategol
http://www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol

Y Gymraeg
http://www.abertawe.gov.uk/cymraeg